

Cylchlythyr Gwasanaethau Caffael i Gwsmeriaid

Hydref 2019

Profi Clinigol Y Ganolfan Gymorth i Ymateb i Darfu ar Gyflenwadau GIG Cymru

Yn y rhifyn hwn

Newid ffiniau a'r effaith ar
Wariant Cyfalaf

Y Gadwyn Gyflenwi yn lleihau
ôl troed carbon

Y Tîm Meincnodi'n rhannu
llwyddiant

Cyflawni Rhagoriaeth mewn
Gwasanaethau Cwsmeriaid

Digwyddiad Gwasanaethau
Caffael a'r Gwasanaeth
Negesvdd Iechyd
i Lywodraeth Sri Lanca



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Partneriaeth
Cydwasaethau
Gwasanaethau Caffael

Shared Services
Partnership
Procurement Services

Croeso

Cyfarwyddwr Gwasanaethau Caffael a'r Gwasanaeth
Negesydd Iechyd

Jonathan Irvine



Rwyf wrth fy modd i ddechrau yn y swydd Cyfarwyddwr Gwasanaethau Caffael a'r Gwasanaeth Negesydd Iechyd gyda PCGC ac rwyf yn edrych ymlaen yn fawr at weithio gyda chi i gyd i gwrdd â'r heriau sy'n ein hwynebu wrth ddarparu gwasanaeth gofal iechyd o'r radd flaenaf i'n poblogaeth. Rwyf wedi symud i Gymru gyda'r profiad o arwain gwasanaethau caffael ar lefel uwch yn un o Ymddiriedolaethau'r GIG mwyaf yn Lloegr, Nottingham University Hospitals NHS Trust ac ar lefel genedlaethol gyda'r Gwasanaeth Caffael a Logisteg yng Ngogledd Iwerddon.

Rwy'n falch o arwain tîm gwych o weithwyr proffesiynol profiadol a brwdfrydig yr wyf yn gwybod y byddant yn parhau i wneud gwahaniaeth cadarnhaol wrth ddarparu Gwasanaethau Caffael i'ch sefydliadau yn unigol ac fel rhan o'r rhaglen genedlaethol.

Mae'r amgylchedd yn newid yn gyson ac rwyf wedi ymrwymo i sicrhau bod Gwasanaethau Caffael yn ymgysylltu â chi i ddatblygu'r ystod o wasanaethau a gynigir i ddiwallu gofynion ansawdd, amgylcheddol, ariannol a chymdeithasol system gofal iechyd modern. Byddwn, wrth gwrs, yn parhau i gynnal a gwella gwasanaethau sy'n bodoli eisoes megis caffael rheng flaen, logisteg a chadwyn gyflenwi a chyrchu cenedlaethol. Fodd bynnag byddwn hefyd yn gweithio gyda chi i ddatblygu a gweithredu mentrau megis caffael ar sail gwerth sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau cleifion a chostau system gofal iechyd.

Rwy'n awyddus ein bod yn mabwysiadu a defnyddio technoleg i wella llif deunyddiau a darparu gwybodaeth adrodd sy'n llywio'r broses o wneud penderfyniadau amserol ac effeithiol o ran eich gwariant heblaw tâl.

Byddaf hefyd yn cysylltu â chi i ddeall sut y gallwn ehangu gweithgarwch Gwasanaethau Caffael i feysydd nad ydynt o fewn eu cwrpas ar hyn o bryd. Dim ond trwy ymrwymo i raddfa ehangach o ddylanwad Caffael y gellir gyrru'r dull "Unwaith i Gymru" ymlaen a gobeithio y bydd llwyddiant ein sefydliad hyd yma a'r cyflwyniad o'r gwerth y gallwn ei gynnig yn y dyfodol yn eich annog i weithio gyda ni ar y cyd. Bydd y dull hwn yn cynyddu dylanwad GIG Cymru ymhellach yn y farchnad fasnachol ac yn sicrhau y gallwn sicrhau'r gwerth gorau am ganlyniadau i gleifion.

Mae'n amhosib darparu unrhyw friffio heb yngan y gair "Brexit". Mae PCGC wedi bod ar flaen y gad o ran cynllunio i fod yn barod ar gyfer Brexit. Mae gennym drefniadau wrth gefn ar waith ac rydym wedi sicrhau gwytnwch yn y gadwyn gyflenwi i sicrhau y bydd y ddarpariaeth gofal iechyd yn parhau heb ymyrraeth. Bydd y gwersi a ddysgir o Brexit yn amhrisiadwy ar gyfer symud ymlaen gyda chynlluniau argyfwng a chynlluniau wrth gefn yn y gadwyn gyflenwi yn y tymor canolig a'r tymor hir.

Hyderaf y bydd y cylchlythyr hwn o ddiddordeb ichi ac edrychaf ymlaen at gwrdd â chi yn y dyfodol agos.

Jonathan

Diolch i chi am ddarllen ein cylchlythyr

Pe hoffech chi ragor o wybodaeth am unrhyw un o'r erthyglau yn y cylchlythyr hwn, neu pe hoffech chi gyflwyno erthygl ar gyfer y rhifyn nesaf, e-bostiwch:

alex.curley@wales.nhs.uk



@NWSSP



NWSSP



NWSSP

**Dilynwch ni ar y cyfryngau
cymdeithasol!**

Pwynt Gofal Cymru Gyfan Contract Monitro Gwrthgeulo

Yn dilyn cyhoeddi Gwasanaeth Ychwanegol dan Gyfarwyddyd: Gwrthgeulo trwy'r Geg gyda Warfarin yn 2017 Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru – Mae Gwasanaethau Caffael wedi cwblhau proses dendro ffurfiol i ddyfarnu contract Cymru Gyfan ar gyfer Offer POCT, Nwyddau Traul a Meddalwedd Dosio.

Defnyddiwyd dull Caffael Ar Sail Gwerth gan bwysleisio ansawdd a gwella canlyniadau cleifion dros gost.

Mae'r contract wedi'i rannu yn ddau lot:

Lot 1 – Cyflenwr Offer Profion Pwynt Gofal Gwrthgeulo a Chyflenwr Nwyddau Traul: Roche Diagnostics UK Ltd

Mae'r Lot hon yn cynnwys yr holl offer a nwyddau traul angenrheidiol i gynnal prawf Cymhareb Normaleiddio Rhyngwladol (INR) Pwynt Gofal gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i fesuryddion profi pwynt gofal, stribedi prawf, rheolyddion ansawdd, a mesuryddion hunan-brofi cleifion. Mae hefyd yn cynnwys yr holl hyfforddiant sy'n gysylltiedig â defnyddio offer y soniwyd amdano o'r blaen.

Lot 2 – Cyflenwr Meddalwedd Dosio Gwrthgeulo LumiraDX Care Solutions (INR Star)

Mae'r Lot hon yn cynnwys system Meddalwedd Dosio Gwrthgeulo; yn rhyngweithio i systemau TG gofal eilaidd, rhyngweithio i ddyfais, ac unrhyw gymwysiadau symudol i gefnogi trosglwyddo canlyniadau mesuryddion yn ddiogel i feddalwedd. Mae hefyd yn cynnwys yr holl hyfforddiant mewn perthynas â meddalwedd dosio.

GWELLA CANLYNIADAU

Her

- Cwrdd â gofynion y Gwasanaethau Ychwanegol dan Gyfarwyddyd i sicrhau bod contract Cymru gyfan sy'n cydymffurfio ar waith
- Yr angen i fynd â gofal yn nes at y claf
- Cynnwys gofynion i'r dyfodol megis datblygu hunan-brofi cleifion a'r defnydd o apiau
- Casglu data i gefnogi mesur canlyniadau
- Amrywiad mewn systemau meddalwedd dosio a ddefnyddir ledled Cymru gan ei gwneud yn anodd casglu data
- Gwella rheoli Symptomau a Lleihau nifer y digwyddiadau niweidiol.

Ymyrraeth

- Tendr Cymru Gyfan a gynhaliwyd ar gyfer Offer Profi a Nwyddau Traul POCT INR a Meddalwedd Dosio Gwrthgeulo
- Roedd y fanyleb yn canolbwyntio ar gynnyrch, gweithdrefn a'r claf
- Roedd y fanyleb yn cynnwys adrodd a mesur canlyniadau
- Contract a Dangosyddion Perfformiad Allwddol yn cynnwys adrodd canlyniadau gan gynnwys Amser i Ddatrys.



Effaith

- **Safoni Cymru Gyfan**
- **Cyd-gynhyrchu** – bydd dull sy'n seiliedig ar ganlyniadau yn rhoi'r dewis i gleifion gyd-reoli eu cyflyrau
- **Yr angen mwyaf yn gyntaf** – monitro cleifion yn rhagweithiol trwy well casglu ac adrodd
- **Dim niwed** – y llwybr mwyaf priodol ar gyfer profi yn seiliedig ar glaf unigol
- **Lleihau amrywiadau amhriodol** – mynediad at y dull gorau o brofi, e.e. hunan-brofi neu f eddyg teulu.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â'ch Arweinydd Gofal Sylfaenol neu'ch Arweinydd Pwynt Gofal.

Newid ffiniau a'r effaith ar Brynu Cyfalaf

Ddechrau'r flwyddyn ariannol, newidiod ffin Bwrdd Iechyd Cwm Taf wrth i'r Bwrdd ymgorffori Ysbyty Tywysoges Cymru a'i ddalgylch yn ei gylch gwaith. Yn sgil hynny newidiwyd yr enw i Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg.

Roedd unrhyw newid i'r gwasanaeth bob amser yn debygol o gael effaith ar ein darpariaeth Gwasanaethau Caffael i gydweithwyr gofal iechyd. Dangoswyd hyn wrth gymharu cynlluniau Cyfalaf Dewisol y Flwyddyn Ariannol gyfredol â'r blaenorol. Man cychwyn 2019-2020 oedd 98 cynllun o'i gymharu â 21 yn y flwyddyn ariannol flaenorol. Yn wyneb y newidiadau hyn, roedd angen eglurder ynghylch cyfanswm y gofynion.

Mae gan Cwm Taf Morgannwg adnodd caffael pwrpasol ar gyfer offer cyfalaf fel rhan o'u dull partner busnes. Yr arweinydd er Medi 2018 yw Gwyn Thomas ac mae wedi helpu i arwain y rhaglen trwy'r Grŵp Monitro Cyfalaf Gweithredol CTM yn ystod newid y ffin o bersectif caffael.

Roedd y Cyfarwyddiaethau yn cynnwys eu gofynion offer yn eu Cynlluniau Tymor Canolig Integredig i'w hystyried gan Grŵp Monitro Cyfalaf Gweithredol CTM. Casglwyd a blaenoriaethwyd hyn. Yna, y Swyddog Cyfalaf Busnes oedd yn gyfrifol am adolygu a chynllunio sut i fynd i'r afael â'r cynydd hwn yn y lefel gwaith.

Cyfanswm y pryniannau offer cyfalaf yn 2018-19 oedd 91 ac roedd y rhain yn amrywio o'r eitemau llai megis sganwyr pledren yr holl ffordd at offer ategol megis dwysawyr delwedd a pheiriannau uwchsain i gefnogi'r uned MRI newydd yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg. Helpodd yr adnoddau pwrpasol a roddwyd ar waith i ryddhau arbedion osgoi costau o £390 mil yn y flwyddyn ariannol honno.



Gwyn Thomas

Roedd y pryniannau y gofynnwyd amdanynt ar gyfer 2019-20 ar ôl y newid ffin hwn wedi cynyddu i ragolwg o 145 a fyddai angen dull strategol i sicrhau cyflawniad llawn pe rhoddir cyllid cyfalaf dewisol. Aeth Gwyn ati yn gyntaf i gwrrdd â'r holl adrannau a chyfarwyddiaethau yn Ysbyty Tywysoges Cymru er mwyn deall sut roedd proses offer cyfalaf Cwm Taf Morgannwg yn gweithio fel y gallai pawb fod yn barod i gyflwyno eu cynigion mewn da bryd.

Roedd ymgysylltu'n gynnar yn allweddol i adeiladu perthnasoedd gweithio da a sicrhau dealltwriaeth gynhwysfawr o'r angen. Fodd bynnag, tynnir sylw at y ffaith y byddai'r dasg hon wedi bod yn anoddach o lawer heb gymorth Paul Jones (Rheolwr yr Adran Beirianeg Electro-Fiofeddygol yn Ysbyty Tywysoges Cymru). Ar ôl deall yr holl ofynion, aeth Gwyn ati i weld a oedd unrhyw gyfleoedd i agregu yn ôl cyflenwr neu yn ôl math o gynnyrch ledled y Bwrdd Iechyd. Cydnabuwyd y prif gyflenwyr yn y cam hwn a gwahoddwyd pob un ohonynt i'r safle er mwyn deall llwybr gwell i'r farchnad a fyddai'n galluogi'r gwariant cyfanredol hwn. Mae'r eitemau hyn yn cynnwys peiriannau anadlu, peiriannau anesthesia a systemau pentyrru laparosgopig.

Mae wedi bod yn flwyddyn gyffroes hyd yn hyn ac mae llawer o brosiectau eisoes wedi'u cwblhau sydd wedi rhyddhau arbedion osgoi costau o £140K+ mil yn ôl i'r gyllideb i alluogi pryniannau pwysig pellach. Mae Cwm Taf Morgannwg yn edrych ymlaen at weddill y Flwyddyn Ariannol. Mae rhai o'r prosiectau mawr sydd ar y gweill yn cynnwys newid yr holl fonitorau cleifion ledled y Bwrdd Iechyd a gosod robot fferylliaeth newydd ar lawr gwaelod newydd Ysbyty'r Tywysog Siarl. Bydd Gwyn wrthi fel lladd nadroedd gan fod rhagolwg y bydd angen arbedion osgoi costau o oddeutu £500 mil eleni!

Diweddariad gan y Tîm Meddygol

Mae'r tîm Meddygol wedi bod yn brysur dros yr ychydig fisoedd diwethaf o ganlyniad i'r contractau canlynol yn cael eu dyfarnu. Ar y cyfan, mae'r contractau hyn wedi rhoi cyfle i Fyrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau GIG Cymru arbed dros £250k. Hefyd, mae cyfleoedd pellach i arbed arian pe bai Bwrdd Iechyd neu Ymddiriedolaeth yn dymuno safoni a rhesymoli gwariant. Gellir gweld trosolwg byr o'r dyfarniadau isod. Mae'n bosibl bod dyfarnu'r cytundebau hyn wedi cael effaith ar gyflenwadau eitemau o storffeydd Gwasanaethau Caffael PCGC neu'r catalog.

Rhoddwyd gwybod am y newidiadau hyn a'r effaith ar Fyrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau adeg y dyfarniad. I gael rhagor o wybodaeth am gyfleoedd neu newidiadau, anfonwch e-bost at: NWSSPPurement.MedicalTeam@wales.nhs.uk gan ddyfynnu'r cyfeirnod pethnasol isod.

Tîm	Is-adran	Teitl y Prosiect	Cyfeirnod	Dyddiad Dechrau
CYRCHU - MEDDYGOL A CHLINIGOL	NWYDDAU TRAU THEATR	CATHETRAU 'SUGNAD CAEEDIG'	MED-OJEU-36503(A)	01/09/19
CYRCHU - MEDDYGOL A CHLINIGOL	DIAGNOSTEG A MEDDYGAETH GYFFREDINOL	NWYDDAU TRAU AC ATEGOLION ECG A DIFFIBRILIO	MED-OJEU-37575	01/09/19
CYRCHU - MEDDYGOL A CHLINIGOL	ANESTHETEG, ANADLU A MEWNWYTHIENNOL	THERAPI OCSIGEN AC ANADLU	MED-OJEU-39935	01/09/19
CYRCHU - MEDDYGOL A CHLINIGOL	NWYDDAU TRAU THEATR	CAU'R CROEN A CHLWYFI	MED-OJEU-40956	01/10/19
CYRCHU - MEDDYGOL A CHLINIGOL	DIAGNOSTEG A MEDDYGAETH GYFFREDINOL	NWYDDAU TRAU MONITRO CLEIFION	MED-OJEU-37500	01/11/19

Cathetrau 'SUGNAD CAEEDIG'

Mae'r cytundeb ar gyfer darparu cathetrau 'sugnad caeedig' ac ategolion cysylltiedig. Gwerthuswyd pob eitem gan weithgor o glinigwyr i sicrhau bod yr eitemau'n cwrdd â'r fanyleb y cytunwyd arni. Dyfarnwyd y cytundeb am gyfnod o 3 blynedd gyda'r opsiwn i ymestyn am 12 mis arall. Gwnaeth dyfarnu'r cytundeb sicrhau arbediad o dros £17 mil drwy Gymru Gyfan.

Nwyddau Traul ac Ategolion ECG a Diffibrilio

Mae'r cytundeb yn hwyluso darparu Electroddau ECG, Padiau Diffibrilio, Gel Uwchsaïn a'r holl geblau ac ategolion i'w defnyddio gydag electroddau a phadiau sy'n cael eu defnyddio ledled GIG Cymru.

Bydd y cytundeb hwn ar waith am 4 blynedd ac felly yn cyfleu pwysigrwydd ystyried yr angen tymor hir am yr eitemau. Gan fod hwn yn gytundeb Cymru gyfan, mae'r holl Fyrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau wedi cydweithredu i sicrhau arbedion ar gyfer yr eitemau hyn. Wrth gaffael y nwyddau hyn, ceisiodd y Gwasanaethau Caffael arweiniad a gwybodaeth gan dechnegwyr arbenigol sy'n defnyddio'r eitemau hyn ar gleifion yn ddyddiol i ddeall pa eitemau fyddai orau i Gymru. Yn dilyn y dyfarniad, mae'r Gwasanaethau Caffael wedi gwireddu arbedion o £99 mil drwy Gymru Gyfan.



Diweddariad gan y Tîm Meddygol (parhad)

Therapi Ocsigen ac Anadlu

Mae'r contract Therapi Ocsigen ac Anadlu yn contract sydd wedi'i hen sefydlu ac nid yw ond wedi newid ychydig ers ei sefydlu. Mae llawer o'r cynhyrchion wedi bod yn y contract ers tro a phrin y cafwyd unrhyw arloesi yn y farchnad dros yr ychydig o flynyddoedd diwethaf. Gwerthuswyd eitemau fel rhan o ddull aml-gam. Cafodd pob eitem ei gwerthuso yn erbyn manylebau y cytunwyd arnynt gan weithgor o glinigwyr. Yn ogystal â hyn, cynhaliwyd gwerthusiad pellach ar gywasgwyr gan adrannau Peirianeg Electro-Fiofeddygol y Byrddau Iechyd ac ar Nebiweiddwyr gan Labordy Profi Deunyddiau Llawfeddygol yn Ysbyty Tywysoges Cymru, Pen-y-bont ar Ogwr. Dyfarnwyd y cytundeb am gyfnod o 4 blynedd, gyda chyfleoedd i arbed dros £27 mil y flwyddyn.

Cau'r Croen a Chlwyfau

Roedd contract Cau'r Croen a Chlwyfau Cymru Gyfan wedi bod ar waith ers 2015 ac roedd yn cynnwys 23 o gyflenwyr ar gytundeb fframwaith aml-gyflenwr. Roedd angen cytundeb cydymffurfio i ddisodli Cau'r Croen a Chlwyfau AW4422 i ganiatáu i Fyrddau ac Ymddiriedolaethau Iechyd GIG Cymru brynu eitemau Cau'r Croen a Chlwyfau. Er bod cydymffurfiaeth y contract blaenorol ymhell dros 90%, nid oedd strwythur y cytundeb yn caniatáu i Fyrddau Iechyd safoni a rhesymoli gwariant o dan y cytundeb yn hawdd.

Y nod a amlinellwyd yn ystod camau cynllunio'r broses gaffael flaenorol oedd rhesymoli'r sylfaen cyflenwyr i gynhyrchu arbedion. Roedd prisio ar sail Cymru Gyfan a heb ymrwymiad ymlaen llaw ac yn aml nid oedd yn darparu buddion ac arbedion i Fyrddau Iechyd. Y tu allan i gynnal cystadlaethau bach, nid oedd unrhyw fecanweithiau i unigolion na grwpiau o Fyrddau Iechyd gael mynediad at brisio mwy buddiol yn seiliedig ar lefelau o ymrwymiad. Dyfarnwyd cytundeb fframwaith newydd am gyfnod o 4 blynedd. Mae'r dyfarniad wedi gwireddu arbediad o dros £150 mil drwy Gymru Gyfan.

Er mwyn oresgyn y problemau a welwyd o dan yr hen gytundeb, dyfarnodd y Gwasanaethau Caffael Gytundeb Fframwaith gyda phrisio ar ffurf bandiau a fydd yn canolbwyntio ar wariant blynyddol pob Bwrdd Iechyd gyda chyflenwr penodol er mwyn pennu ei fand prisio perthnasol. Bydd hyn yn caniatáu i'r Gwasanaethau Caffael adolygu gwariant pob Bwrdd Iechyd yn rhagweithiol a nodi cyfleoedd i arbed arian yn seiliedig ar Fyrddau Iechyd yn cynyddu eu gwariant blynyddol gyda chyflenwyr penodol. Gallai'r dull hwn ganiatáu i Fyrddau Iechyd gynyddu eu gwariant blynyddol gyda chyflenwyr amgen yn raddol yn hytrach na bod yn rhan o broses newid fwy. Yn ogystal â hyn, mae Gwasanaethau Caffael hefyd wedi cynnwys mecanwaith prisio Cymru Gyfan wedi'i fandio a fydd yn cychwyn pan fydd y farchnad yn cyrraedd trothwyon penodol Cymru Gyfan (65%–75%, 76%–89%, >90%).



Defnyddiau Traul Monitro Cleifion

Mae'r contract yn caniatáu i Fyrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau yn GIG Cymru brynu sffygmanomedrau, cyffiau ac ategolion pwysau gwaed, synwryddion ac ategolion dirlawnder ocsigen perifferolyn capilari, a dyfeisiau monitro llaw, ocsifesyryddion pwls bys, llinellau monitro pwysau, a chwiliedyddion tymheredd drwy gydymffurfiaid â contract Cymru Gyfan. Mae'r gwariant o fewn y categori hwn wedi'i dalu yn bennaf gan Gadwyn Gyflenwi'r GIG ynghyd â sawl cytundeb prynu sydd yn ymdrin â meysydd Ocsifesyrydd Pwls, Cyffiau Pwysau Gwaed a Defnyddiau Traul Monitro Cleifion yn uniongyrchol. Gan nad oes cytundeb ffurfiol yn ei le ar gyfer yr eitemau hyn, cynigodd Gwasanaethau Caffael greu cytundeb newydd wrth ymgorffori'r ideolegau sy'n amlwg drwy adroddiad yr Arglwydd Carter ac egwyddorion Gofal Iechyd Darbodus, gan helpu'r GIG i ddatblygu'n gynaliadwy ar gyfer y dyfodol.

Bwriad Gwasanaethau Caffael oedd rhannu'r cynhyrchion Ocsifesyryddion Pwls a Chyffiau Pwysau Gwaed i ddau gytundeb ar wahân. Fodd bynnag, yn ystod y camau cynllunio, daeth yn amlwg bod darparwyr cyffredin ar draws y ddau faes a, gan y byddai angen cyfranogiad gan Adran Beirianeg Electro-Fiofeddygol ar Wasanaethau Caffael, cytunwyd y byddai'r ddau faes yn cael eu hymgorffori i un cytundeb ac ymgorfforwyd troswyr pwysau gwaed a llinellau monitro, sffygmanomedrau a chwiliedyddion monitro cleifion yn ychwanegol i'r contract hefyd. Mae'r cytundeb wedi cael ei ddyfarnu am gyfnod o 4 blynedd gyda chyfle i arbed dros £43 mil.

Y Gadwyn Gyflenwi yn Lleihau ôl troed carbon



Cerbyd nwyddau trwm eco-gyfeillgar
Mercedes-Benz Atego

Mae Cadwyn Gyflenwi, Gwasanaethau Caffael, yn ymrwymedig i reoli ei heffaith amgylcheddol gan leihau ei hôl-troed carbon a chynyddu cynaliadwyedd. Fel allbwn uniongyrchol adolygiad diweddar o Storfeydd Rhanbarthol Dinbych, Amserlen Trafnidiaeth Ddyddiol Gogledd-orllewin Cymru, nodwyd bod cyfle i leihau ôl-troed carbon a chostau gweithredu.

Yn ddiweddar, mae swyddogaeth y Gadwyn Gyflenwi, sydd wedi'i lleoli yn Storfeydd Rhanbarthol Dinbych, wedi cael cerbyd nwyddau trwm newydd, sef Mercedes-Benz Atego 18T sydd â hyd bocs o oddeutu 30 troedfedd. Mae hyn yn gynydd o oddeutu 8 troedfedd o'i gymharu â HGV safonol presennol Gwasanaethau Caffael (Mercedes-Benz Atego 15T).

Mae hyn wedi caniatáu i Storfeydd Dinbych gynyddu uchafswm prif lwyth cerbydau trwy ganiatáu cludo hyd at 8 caets ar olwynion ychwanegol, gan leihau'r angen i anfon ail gerbyd allan yng Ngogledd-orllewin Cymru.

Bydd y cerbyd hwn, sydd â'r uchafswm prif lwyth mwyaf, yn sicrhau'r buddion canlynol:

- Lleihau costau tanwydd a chynyddu effeithlonrwydd gwasanaethau gweithredol, heb fod angen ailddosbarthu
- Gwella bodlonrwydd cwsmeriaid. Mae Ysbyty Gwynedd yn derbyn dosbarthiad cyfan ar un tro yn hytrach na gorfod aros am ei ail archeb
- Lleihau allyriadau CO2 gan gyfrannu at gyflawni Amcan Amgylcheddol PCGC 'I leihau ein hôl-troed carbon a'n cyfraniad i newid hinsawdd.' (TARGED: Lleihad o 3% o flwyddyn i flwyddyn ar allyriadau carbon a gynhyrchir yn y safleoedd (llinell sylfaen a sefydlwyd 2016-17).

Y Tîm Meincnodi'n rhannu llwyddiant



Mae PCGC yn aelod o The European wide Innovation Procurement in Health and Care Project (EURIPHI). Mae'r prosiect hwn, a ariennir gan yr UE, yn anelu at wneud y canlynol erbyn Mehefin 2020:

- Sefydlu Cymuned Ymarfer cynaliadwy gan ddefnyddio dulliau caffael arloesol yn seiliedig ar werth
- Addasu'r offer presennol, cynnal ymgynghoriadau marchnad a defnyddio profion PPI/PCP trawsffiniol yn seiliedig ar werth fel achosion dysgu ym meysydd diagnosteg cyflym ar gyfer clefydau heintus a modelau newydd o ofal integredig sy'n canolbwyntio ar y claf
- Adeiladu canllawiau cyfreithiol o gydweithrediad trawsffiniol sy'n seiliedig ar werth ar gyfer caffael arloesedd wrth wneud penderfyniadau cyfyngedig
- Adeiladu "Rhwydwaith Rhanbarthol EURIPHI" i flaenoriaethu meysydd o ddiddordeb i fynd i'r afael ag anghenion heb eu diwallu, diffygion mewn darpariaethau gofal ac arwain penderfyniadau buddsoddi.

Yn ddiweddar, cyfarfu Rachel Evans a Joanne Liddle (Tîm Cyrchu Clinigol) â chyfoedion o aelod wledydd eraill dros ddau ddiwrnod ym Mharis i fwrw ymlaen â'r prosiect.

Roedd hyn yn cynnwys cymryd rhan mewn ymgynghoriad marchnad agored â darparwyr mewn perthynas â phrofion diagnosteg cyflym wedi'u hanelu at wella triniaeth gwrthfotig a/neu atal Niwmonia cysylltiedig ag Awyrydd gan gaffael datrysiadau arloesol, a hynny yn seiliedig ar werth. Y nod yw gwella ansawdd gofal a chanlyniadau. Mae'r grŵp i fod i gyfarfod eto yn ddiweddarach eleni i gynnal ymgynghoriad marchnad agored mewn perthynas â gofal integredig, yn benodol ar atal, trin a rheoli strôc.

Yn dibynnu ar lwyddiant yr achosion prawf hyn, y nod yw symud ymlaen i swyddi caffael ym mis Mehefin 2020. Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â Jo Liddle, Uwch Reolwr Categori, Clinigol, neu Rachel Evans, Swyddog Categori, Clinigol.

Gwasanaethau Caffael a'r Gwasanaeth Negesydd Iechyd yn arddangos i Lywodraeth Sri Lanka



Ar 8 Awst 2019, roedd Gwasanaethau Caffael a'r Gwasanaeth Negesydd Iechyd yn falch iawn o letya Sri Lanka Miloda Academy of Financial Studies fel rhan o'u rhaglen hyfforddi gyda Choleg Gwasanaeth Sifil y DU ar Gaffael a Rheoli Contractau.

Sefydlwyd Coleg Gwasanaeth Sifil y DU yn 2012 ar ôl cau Ysgol Genedlaethol y Llywodraeth yn 2010. Caffaelodd Coleg y Gwasanaeth Sifil lawer o'r rhaglenni hyfforddi a gynigiwyd yn flaenorol gan yr ysgol ac ers hynny mae wedi cynyddu nifer y rhaglenni a gynigir, gan sicrhau bod yr hyfforddiant sydd ar gael yn adlewyrchu anghenion cyfredol y rheiny sy'n gweithio yn y sector cyhoeddus. Mae Coleg y Gwasanaeth Sifil yn cynnig cyrsiau hyfforddi arloesol ar amrediad o bynciau, o atebolrwydd a llywodraethu i hyfforddiant ar arweinyddiaeth, rheoli cyllid, rheoli prosiectau a datblygiad personol, ac mae ganddo Raglenni Hyfforddi Rhyngwladol cryf ar gyfer Uwch Weision Sifil Tramor.

Ar hyn o bryd, maent yn rhedeg cwrs ar "Gaffael a Rheoli Contractau" i Lywodraeth Sri Lanka ac maent wedi gofyn i sefydliadau caffael sector cyhoeddus datblygedig ledled y DU gymryd rhan wrth ddarparu elfen astudiaeth maes o'r cwrs, er mwyn i gynrychiolwyr gymharu a chyferbynnu gwahanol ffyrdd o weithio, i weld pa gyfleoedd sydd ar gael ar gyfer eu gwasanaethau eu hunain.

Roedd 38 o gynrychiolwyr yn bresennol yn warws newydd PCGC yng Nghasnewydd, a chyflwynwyd agenda iddynt a oedd yn cynnwys:

- Cyflwyniad a throsolwg o amcanion y rhaglen hyfforddi (Andrea Davis, Coleg Gwasanaeth Sifil y DU)
- Trosolwg strategol o Wasanaethau Caffael GIG Cymru a'r Gwasanaeth Negesydd Iechyd (Graham Davies)
- Taith o amgylch y warws a'r safle (Tony Chatfield a Louise Rogers)
- Diweddariad ar y weledigaeth ar gyfer dyfodol Gwasanaethau Caffael GIG Cymru a'r Gwasanaeth Negesydd Iechyd sy'n gysylltiedig â'r warws newydd (Mark Roscrow)
- Trosolwg o Ofal Iechyd sy'n seiliedig ar werth a Chaffael sy'n seiliedig ar werth (Adele Cahill a James Griffiths).

Cafodd y sesiwn dderbyniad da, a diolchodd Andrea Davis (Rheolwr Rhaglen Ryngwladol, Coleg Gwasanaeth Sifil y DU) i PCGC am ei chyfraniad at ddysgu.

Dywedodd Graham Davies, Dirprwy Gyfarwyddwr Caffael a'r Gwasanaeth Negesydd Iechyd;
"Mae PCGC yn falch iawn o gydweithio â Choleg Gwasanaeth Sifil y DU a'r cynrychiolwyr o wahanol adrannau o Lywodraeth Sri Lanka. Rydym yn falch o allu rhannu ein taith tuag at wella, a gobeithiwn y byddwn hefyd, trwy sefydlu'r cysylltiadau hyn, yn gallu dysgu gan eraill yn y dyfodol. Mae digwyddiadau o'r fath bob amser o fudd i bawb sy'n cymryd rhan ac maent yn ein cynorthwyo i gyfrannu at lesiant cenedlaethau'r dyfodol yng Nghymru o ran mwy o gydweithredu, ac o ran rhannu cynyddol o'r gwaith da sy'n digwydd yn sector cyhoeddus Cymru yn fyd-eang."

Tîm Caffael TG yn sicrhau arbedion mawr i GIG Cymru

Yn ddiweddar, mae Tîm Caffael TG Aneurin Bevan wedi cwblhau rhaglen rhesymoli stociau strategol mewn perthynas â'u ffonau symudol. Mae gan y Bwrdd Iechyd tua 3,500 o gontractau ar draws sawl darparwr gwasanaeth.

Cafodd archwiliadau eu cwblhau dros gyfnod o 18 i 24 mis er mwyn ymchwilio i ddefnydd a phennu ffigur cyfanredol o lais a defnydd data. Cafodd yr ymarferiad tendro ei ysgrifennu a'i redeg gan Sarah Humphries, Rheolwr Caffael a Busnes TGCh, ar ôl trafodaethau â Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a gwblhaodd ymarferiad tendro tebyg yn ddiweddar.

Cafodd ymarferiad cystadleuol ei gynnal gan ddefnyddio fframwaith Gwasanaethau Masnachol y Goron er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth gorau posib yn cael ei gyflawni, ynghyd ag effeithlonrwydd. Yn y pen draw, EE oedd y cynigiwr llwyddiannus. Gwnaeth y canlyniad greu contract ar gyfer data cyfanredol a threfniadau llais ar draws pob ffôn clyfar a ffôn symudol, sy'n galluogi i ddefnyddwyr rannu lwfansau er mwyn osgoi costau defnyddio ychwanegol i unigolion.

Mae'r arbedion wedi cael eu monitro bob mis ers y dyfarniad a chyfrifwyd bod arbedion o £20,000 yn ystod mis Awst 2019, sy'n golygu ein bod ar y trywydd iawn i sicrhau arbedion o £250,000 dros y flwyddyn ariannol gyfan.

Mae'r holl gostau sydd ynghlwm wrth gysylltu â rhwydweithiau eraill bellach wedi'u dileu, mae yswiriant wedi cael ei ailasesu a'i ganslo i ddefnyddwyr lle nad oedd ei angen ac mae'r ymarferiad rhesymoli hwn wedi caniatáu i rai defnyddwyr newid i gontractau y telir amdanynt ymlaen llaw. Bydd y gwaith yn parhau fel y gellir sicrhau'r arbedion tybiedig a bydd y mentrau gwerth am arian hyn yn aros yn rhan o weithrediad "busnes fel arfer" y tîm.

Da iawn i Sarah Humphries a staff Caffael TGCh!



Tîm Caffael TGCh Aneurin Bevan o'r chwith: Andrew Davies, Lloyd Johnson, Lauren Moylan, Sarah Humphries, Natasha Sullar, Kelly Williamson, Jo Davies, Kerry Emms, Sophie Rogers a David Cook

Cyflawni Rhagoriaeth mewn Gwasanaethau Cwsmeriaid

Unwaith yn rhagor, mae Gwasanaethau Caffael wedi ennill achrediad Rhagoriaeth mewn Gwasanaethau Cwsmeriaid i gydnabod eu hymrwymiad at sicrhau bod cwsmeriaid wrth wraidd eu gwasanaeth.

Nododd yr asesydd yn ei hadroddiad bod: *"Yr ymrwymiad corfforaethol at wasanaethau cwsmeriaid yng Ngwasanaethau Caffael yn gryf iawn. Mae'r holl strategaethau yn gyson â rhagoriaeth mewn gwasanaethau cwsmeriaid ac roedd polisïau cysylltiedig yn gosod y cwsmer wrth wraidd pob gweithgaredd."*

Yn ystod yr asesiad, dyfarnodd yr asesydd bum maes gyda sgôr 'Compliance Plus'. Dyfernir y rhain am ymddygiadau neu arferion sy'n rhagori ar ofynion y safon a chânt eu hystyried yn eithriadol neu'n esiampl i eraill. Cafodd y rhain eu dyfarnu yn y meysydd canlynol:

- Ymgysylltu ac ymgynghori â chwsmeriaid – Mae ystod a dyfnder ymgysylltu â chwsmeriaid yn fwy na'r hyn a ddisgwylid ac mae cwsmeriaid eu hunain yn dweud eu bod yn cymryd mwy o ran mewn penderfyniadau yn ymwneud â darparu gwasanaethau iddynt gan Wasanaethau Caffael
- Ymrwymiad corfforaethol cryf i wasanaethau cwsmeriaid – Mae'r holl strategaethau yn gyson â rhagoriaeth mewn gwasanaethau cwsmeriaid ac mae polisïau cysylltiedig yn gosod y cwsmer wrth wraidd pob gweithgaredd. Mae uwch reolwyr yn eiriolwyr cryf ac yn arwain trwy esiampl o ran gofal cwsmeriaid. Mae hyn yn fwy na'r hyn a ddisgwylid fel arfer a chaiff yr ymagwedd hon ei rhannu â sefydliadau eraill ym musnes y Bartneriaeth Cydwasanaethau a'r tu allan iddo. O ganlyniad i ymrwymiad yr uwch dîm, mae staff hefyd yn gwbl ymrwymedig i'r cwsmeriaid ac, yn bwysicach na dim, maent yn ymrwymedig i'r cwsmeriaid yn y pen draw, sef cleifion
 - Mae grymuso staff yn nodwedd gadarnhaol o ddiwylliant Gwasanaethau Caffael
 - Oherwydd faint o rymuso sy'n digwydd yn fwy aml na'r disgwyl, o ystyried yr ystod eang o swyddi, caiff hyn ei ystyried yn faen prawf 'Compliance Plus'
 - Mae adborth cwsmeriaid mewn perthynas â chwarteisi staff yn hynod o gadarnhaol. Yng nghyd-destun busnes i fusnes, ystyrir bod y lefel hon o gydnabyddiaeth yn cyfiawnhau'r dyfarniad 'Compliance Plus'
 - Defnyddir mewnwelediad staff yn aml i wella profiadau cwsmeriaid. Gan fod yr ymagwedd hon yn fwy trylwyr na'r disgwyl, mae hwn yn faes 'Compliance Plus'.



Roedd cwsmeriaid yn dweud yn gyson fod staff yn "broffesiynol, "yn bleser i weithio â nhw" a'u bod yn mynd "gam ymhellach i helpu i esbonio prosesau".

Meddai Jonathan Irvine, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Caffael a'r Gwasanaeth Negesydd

Iechyd: *"Dyma gydnabyddiaeth wych a chwbl haeddiannol o ymrwymiad staff Gwasanaethau Caffael at ein cwsmeriaid. Mae'r achrediad a chanlyniadau 'Compliance Plus' yn pwysleisio'r ffaith bod cydweithwyr ar bob lefel yng Ngwasanaethau Caffael yn gwerthfawrogi ein cwsmeriaid ac yn eu gosod wrth wraidd ein holl weithgareddau."*

Meddai Kirstie King, Rheolwr Ansawdd Busnes:

"Rydw i wrth fy modd gyda chanlyniad yr archwiliad hwn. Mae sylwadau'r Asesydd a'n Cwsmeriaid yn dyst i ymrwymiad a gwaith caled pob aelod o staff yng Ngwasanaethau Caffael. Mae ymroddiad ein timau a'u hymddygiadau wedi ein galluogi i ragori ar adroddiad y llynedd ac rydyn ni'n gobeithio gwneud hyn yn oed yn well yn 2020."

Adleoli Tîm Caffael Rheng Flaen Caerdydd a'r Fro

Fel rhan o'r gwaith sy'n mynd rhagddo i adnewyddu safle Ysbyty Athrofaol Cymru Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, mae staff y Tîm Caffael Lleol wedi cael eu hadleoli ym mhencadlys newydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ar Heol Maes-y-Coed, Caerdydd. Symudodd y tîm i ail lawr Tŷ Woodland yn ystod mis Medi 2019.

Mae'r manylion cyswllt newydd fel a ganlyn:

Tîm Rheng Flaen Gwasanaethau Caffael Caerdydd a'r Fro

Ail Lawr

Tŷ Woodland

Heol Maes-y-Coed

Caerdydd

CF14 4TT


PENNAETH CAFFAEL	Claire Salisbury (Arennol)	02921 836445
DIRPRWY BENNAETH CAFFAEL	Rhian Lye	
UWCH REOLWR BUSNES CAFFAEL		
NYRSYS CAFFAEL	Terry Stephens (Nyrs Caffael y Bwrdd Iechyd)	02921 836448
RHEOLWYR BUSNES CAFFAEL		
Jacob Stokes	Diagnosteg Glinigol a'r Bwrdd Therapiwteg	
Sarah Yellen	Iechyd Meddwl, Gofal Sylfaenol, Gofal yn y Gymuned a Gofal Canolradd, Meddygaeth	02921 836449
Emma Lane	Cyrchu	02921 836450
Magdalena Borkowsk	Ystadau	02921 836465
Julie Winterburn	Anfeddygol a Phrynu i Dalu	02921 836457
Gavin Hodges	Llawfeddygaeth	02921 836443
Ed Butler	Gwasanaethau Arbenigol	02921 836462
RHEOLWYR BUSNES CAFFAEL CYNORTHWYOL		
Brynmor Jones (EL)	Rheolwr Busnes Caffael Cynorthwyol	02921 836452
Leanne Miles (EL)	Rheolwr Busnes Caffael Cynorthwyol	02921 836454
Michael Page (EB)	Rheolwr Busnes Caffael Cynorthwyol	02921 836455
Nia Price (NA/JW)	Rheolwr Busnes Caffael Cynorthwyol	02921 836458
Jay Ankail (*TS)	Rheolwr Busnes Caffael Cynorthwyol	02921 836448*
Ryan James (GH)	Rheolwr Busnes Caffael Cynorthwyol	02921 836442
Samuel Tse (JS)	Rheolwr Busnes Caffael Cynorthwyol	02921 836456
SWYDDOGION BUSNES CAFFAEL CYNORTHWYOL		
Gaynor Bright (EB)	Assistant Procurement Business Officer	
CYNORTHWYWYR PRYNU		
Karen French (GB)	Cynorthwydd Prynu	02921 836460
Adam Salisbury (GB)	Cynorthwydd Prynu	02921 836461

Profi Clinigol Y Ganolfan Gymorth i Ymateb i Darfu ar Gyflenwadau GIG Cymru

Fel rhan o'n paratodau Ymateb i Darfu ar Gyflenwadau Cenedlaethol oherwydd Brexit, cwblhaodd Gwasanaethau Caffael PCGC, Y Ganolfan Gymorth i Ymateb i Darfu ar Gyflenwadau brofion dros 3 diwrnod; 15, 16 a 17 Hydref 2019.

Cwblhawyd hyn i brofi'r broses ar gyfer uwchgyfeirio materion cyflenwi sy'n ymwneud â Dyfeisiau Meddygol a Nwyddau Traul Clinigol ar ran GIG Cymru i'r tîm gan Dimau Caffael Rheng Flaen.

Roedd hyn yn cynnwys 9 senario gwahanol yn ymwneud ag ystod lawn o arbenigeddau meddygol, a oedd hefyd yn profi uwchgyfeirio i'r broses Arweinwyr Clinigol Cymru Cymru Gyfan arfaethedig.



Aelodau Tîm Y Ganolfan Gymorth i Ymateb i Darfu ar Gyflenwadau, Rhys Davies (cefn) - Tîm Caffael Rheng Flaen Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre, Jamie Jones (canol), Jack Robinson (olaf) Tîm Caffael Rheng Flaen Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan



Aelodau Tîm Y Ganolfan Gymorth i Ymateb i Darfu ar Gyflenwadau, Paul Beeslee - Tîm Caffael Rheng Flaen Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, Sarah Muir - Tîm Caffael Rheng Flaen Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre